# Faint o oed mae gofyn i'm plentyn fod, i mi gael dod ag ef i'r theatr?

**Canllaw Theatr Iolo i Arweiniad a Chyfyngiadau Oed**

A ninnau'n gwmni sy'n gwneud theatr yn benodol i blant 0-16 oed, credwn fod plant yn gallu mwynhau eu profiad cyntaf o theatr fyw pan fyddan nhw cyn lleied â chwe mis oed.

Darllenwch ein canllaw hwylus i gael rhagor o wybodaeth ynghylch sut i benderfynu i ba sioe gan Theatr Iolo y dewch â'ch plant bach (neu fawr!) iddi nesaf...

## Arweiniad Oedran

Mae'r rhan fwyaf o'n perfformiadau'n dod ynghyd ag **Arweiniad Oedran**. Mae hwn yma i ddweud wrthych ein bod wedi creu'r sioe â'r grŵp oedran neilltuol hwnnw mewn golwg, a chredwn mai plant o'r oed yna fydd ar eu hennill fwyaf o'r perfformiad.

Fodd bynnag, cydnabyddwn eich bod efallai am ddod â phlant o wahanol oed; hwyrach am fod gennych fabi rydych yn ei fwydo o'r fron/ar y frest neu blentyn hŷn a chanddo anabledd neu oediad yn ei ddatblygiad. Rydym yn ffyddiog y byddwch chi, yn rhieni neu'n ofalwyr, yn dod i benderfyniad sy'n iawn i'ch teulu chi, ond rydym yma i roi help llaw os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am y perfformiad.

Os ydych chi'n meddwl dod â phlant iau na'r canllaw oed, gofynnwn yn garedig i chi ystyried a fydd eich plant yn mwynhau'r perfformiad ynteu allen nhw aflonyddu. Mae ar blant iau angen gwahanol fathau o bethau i'w symbylu ac weithiau mae plentyn sydd heb fod yn mwynhau'r sioe yn mynd i barablu a gwingo ac weithiau'n cynhyrfu, sy'n ei gwneud hi'n anodd i chi a theuluoedd eraill fwynhau'r perfformiad. Os ydych chi'n credu bod eich plentyn yn rhy ifanc i fwynhau'r sioe, rydym yn argymell eich bod yn ei adael gyda ffrind neu aelod o'r teulu tra dowch i'r perfformiad gyda'ch plentyn/plant hŷn.

## Cyfyngiad Oedran

O bryd i'w gilydd, bydd ein cynyrchiadau'n dod gyda **Chyfyngiad Oedran.** Mae hyn yn golygu ein bod yn argymell yn daer i chi beidio â dod â phlant hŷn neu iau nag oed neilltuol.

Er enghraifft, mae rhai o'n sioeau wedi'u gwneud yn benodol i fabis a phlant bach 6-18 mis oed. Mae babis bach iawn yn rhy ifanc i fwynhau'r perfformiadau, a gallai plant hŷn fynd â sylw'r babis. Am y rheswm yma, ac fel y gall pawb fwynhau'r perfformiadau'n iawn, rydym yn gosod cyfyngiad oed ar y perfformiadau yma. Yn yr un modd, fe allai fod amgylchiadau lle mae gofyn i ni osod cyfyngiad oed ar gynhyrchiad sy'n cynnwys themâu neu gynnwys sy'n anaddas i gynulleidfa iau.

Er bod ein **Cyfyngiadau Oedran** yn gyngor o fwy o bwys, byddwn yn dal i fod yn barod i drafod eich amgylchiadau penodol. Er enghraifft, fe allai plentyn teirblwydd ac arno oediad yn ei ddatblygiad fwynhau sioe sydd gan amlaf wedi'i bwriadu at blant iau, tra gallai plentyn un mlwydd ar ddeg hengall fod yn iawn yn gwylio rhywbeth wedi'i greu i blant hŷn. Rydym yn falch o drafod cynnwys unrhyw un o'n cynyrchiadau â chi fel y gallwch ddod i benderfyniad cytbwys sy'n iawn i'ch teulu chi.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod ein canllawiau'n fanylach, cofiwch gysylltu â ni drwy ebostio admin@theatriolo.com